**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**

**Swyddog Iechyd Diogelwch a Lles**

**Rhif Cyf: NU270**

**GRADD 8**
**Cyflog: £26,446 – £27,514 y flwyddyn (Pro Rata)**
**30 awr yr wythnos**

**Rôl dros dro ar gyfer absenoldeb mamolaeth, gan ddod i ben ym mis Tachwedd 2022 neu hyd nes y bydd deiliad y swydd yn dychwelyd**

Cododd y swydd wag dros dro uchod o fewn Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a leolwyd ym Mharc Busnes Forest View, Llantrisant.

Rydym yn chwilio i recriwtio person hynod fedrus a phrofiadol i weithio o fewn ein Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd ag amrediad o ddyletswyddau sy'n gymesurol â rôl Swyddog Iechyd, Diogelwch a Lles

Disgwylir i ddeilydd y swydd wneud y canlynol:

- Ymgymryd ag arolygiadau ac archwiliadau gorsaf;
- Adolygu asesiadau risg;
- Darparu ystod o hyfforddiant sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch;
- Gweithredu fel man cyswllt mewn perthynas â materion Iechyd a Diogelwch i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â:

- Phrofiad o weithio o fewn amgylchedd Iechyd a Diogelwch

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **12:00 ar Ddydd Gwener 01/07/2022** a chynhelir y broses ddethol yr wythnos sy'n cychwyn Dydd Llun **04/07/2022** gyda dyddiad cychwyn bras cyn gynted â phosib.

Gellir cael pecyn cais o wefan Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru: www.decymru-tan.gov.uk, neu drwy e-bostio personél@decymru-tan.gov.uk, neu drwy ffonio 01443 232200.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o’n cymuned i ymgeisio.**

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG